



Gwasanaeth Ynni
Energy Service

Casglu data allyriadau'r gadwyn gyflenwi

**Canllawiau atodol ar gyfer rhaglen adrodd Sero Net Sector
Cyhoeddus Cymru**

Fersiwn 01

Ebrill 2026

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Casglu data allyriadau'r gadwyn gyflenwi | 0 |
| Canllawiau atodol ar gyfer rhaglen adrodd Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru | 0 |
| Cynnwys | 1 |
| Geirfa Termau..... | 1 |
| Ynglŷn â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 2 |
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Adnabod cyflenwyr | 4 |
| 3. Ymgysylltu â chyflenwyr..... | 6 |
| 3.1. Templed e-bost | 7 |
| 4. Defnyddio'r canlyniadau | 8 |
| 4.1. Integreiddio'r canlyniadau i'ch ffurflen sefydliadol..... | 9 |
| 4.2. Rhannu'r canlyniadau gyda sefydliadau eraill y Sector Cyhoeddus yng Nghymru | 9 |
| 5. Cwestiynau cyffredin | 11 |

Geirfa Termiau

| Talfyriad | Ystyr |
|--------------------|--|
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| tCO2e | Tunelli o garbon deuocsid cyfwerth |
| SIC | Dosbarthiad Diwydiannol Safonol |
| BBaCh / BBaChau | Menter / Mentrau bach a chanolig eu maint |
| WGES | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru |
| CLILC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| WPPN | Hysbysiad Caffael Cyhoeddus Cymru |

Ynglŷn â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

Gall Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru helpu i ddatblygu eich prosiectau cerbydau allyriadau isel, effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy.

Mae'r Gwasanaeth Ynni yn cefnogi sefydliadau cymunedol a sefydliadau sector cyhoeddus Cymru i ddatblygu prosiectau cerbydau allyriadau isel, effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy a fydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn arwain at arbedion mewn costau, cynhyrchu incwm a manteision cymunedol ehangach.

Rydym yn cynnig cymorth technegol, masnachol a chaffael drwy dîm o arbenigwyr sydd â phrofiad helaeth o ddatblygu prosiectau ynni yng Nghymru.

1. Cyflwyniad

Mae allyriadau'r gadwyn gyflenwi yn cyfrif am oddeutu 70% o ôl troed carbon Sector Cyhoeddus Cymru, gan wneud datgarboneiddio cyflenwyr yn hanfodol i gyflawni uchelgais Sero Net 2030. Hyd yn hyn, mae adrodd allyriadau yn y gadwyn gyflenwi wedi dibynnu'n helaeth ar ddirprwyon sy'n seiliedig ar wariant (haen 1), sy'n amcangyfrif allyriadau gan ddefnyddio data ariannol a chyfartaledd cenedlaethol. Er eu bod yn ddefnyddiol ar gyfer adrodd lefel uchel, nid oes gan y dirprwyon hyn y manylder sydd ei angen i gefnogi rheoli allyriadau yn effeithiol a gallant guddio cyfleoedd ar gyfer targedu datgarboneiddio, gan gysylltu gostyngiadau â gwariant is yn hytrach na gwell perfformiad cyflenwyr.

Wrth i Sector Cyhoeddus Cymru symud tuag at 2030, mae angen amlwg i bontio tuag at ddata allyriadau mwy penodol i gyflenwyr (haen 2) a chynhyrchion neu sy'n benodol i wasanaeth (haen 3). Fodd bynnag, mae adborth wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen llawer iawn o adnoddau ar gyfer adrodd haen uwch ac nad oes gan lawer o sefydliadau'r capasiti na'r gallu i gasglu a phrosesu data cyflenwyr yn gyson.

Mewn ymateb, mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) wedi datblygu templed safonol casglu data cyflenwyr i gefnogi'r pontio hwn. Mae'r templed wedi'i gynllunio i wella ansawdd a chysondeb data allyriadau cyflenwyr a lleihau dyblygu a baich gweinyddol i gyflenwyr a sefydliadau sy'n adrodd.

Tabl 1 – Canllawiau a haenau adrodd Sero Net cyfredol Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer allyriadau'r gadwyn gyflenwi


| Method oleg | Gofynion Data | Cywirdeb adrodd | Delweddu datgarboneiddio |
|-------------|--|-----------------|---|
| Haen 1 | Gwariant (£) yn ôl y sefydliad fesul Categori SIC. Ffactor allyriadau categori SIC cyhoeddus a gynhyrchir yn flynyddol gan Defra ¹ . | Isel | Gellir gweld datgarboneiddio wrth i'r diwydiant cenedlaethol ddatgarboneiddio |
| Haen 2 | Allyriadau'r (tCO2e) cyflenwr. Categori SIC cysylltiedig a gwariant (£) y cyflenwr hwnnw. | Canolig | Gellir gweld datgarboneiddio wrth i'r cyflenwr ddatgarboneiddio |

¹ Defra, [Ôl troed carbon y DU a Lloegr hyd at 2022 - GOV.UK. Tachwedd 2025](#)

| | | | |
|--------|--|-------|--|
| Haen 3 | Allyriadau (tCO2e) o nwyddau a gwasanaethau unigol. Categori SIC cysylltiedig a gwariant (£) o'r nwyddau neu'r gwasanaeth hwnnw. | Uchel | Gellir gweld datgarboneiddio yn seiliedig ar benderfyniadau prynu cynnyrch neu wasanaeth carbon isel |
|--------|--|-------|--|

Mae'r broses o ddefnyddio'r templed casglu data wedi'i rhannu'n dri cham gwahanol, ac mae'r ddogfen ganllaw hon wedi'i seilio arnynt.

Isod: tri cham sy'n gysylltiedig â'r templed casglu data cyflenwyr



2. Adnabod cyflenwyr

Anogir sefydliadau i ymgysylltu â hyd at 10 o gyflenwyr fel rhan o broses casglu data 2026. Fodd bynnag, mae graddfa a chwmpas allgymorth cyflenwyr yn ôl disgrisiwn y sefydliad adrodd a dylai adlewyrchu'r adnoddau a'r capasiti mewnol sydd ar gael.

Pan fo adnoddau yn gyfyngedig, argymhellir bod sefydliadau yn blaenoriaethu ymgysylltu â nifer llai o gyflenwyr â llawer iawn o allyriadau neu strategol arwyddocaol i sicrhau cymaint o gwmpas â phosibl o allyriadau a gwerth adrodd.

Rydym wedi amlinellu dull a awgrymir o adnabod cyflenwyr:

1. **Amcangyfrif allyriadau ar lefel cyflenwyr gan ddefnyddio dirprwyon sy'n seiliedig ar wariant**

Defnyddio ffactorau allyriadau sy'n seiliedig ar wariant i drosi gwariant cyflenwyr (£) yn allyriadau amcangyfrifedig (tCO₂e) ar lefel cyflenwr. Lle nad yw'r sylfaen cyflenwyr wedi'i gategoreiddio'n llawn gan godau SIC, gellir cyfyngu'r ymarfer hwn i'r 50 cyflenwyr uchaf yn ôl gwariant yn hytrach na'i gymhwyso ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan. Mae hyn yn sicrhau cymesuredd wrth barhau i ddal y rhan fwyaf o amlygiad allyriadau.


Arfer gorau: cyn cymhwyso ffactorau allyriadau sy'n seiliedig ar wariant, dylai sefydliadau:

- Safoni enwau cyflenwyr.
- Eithrio gwariant nad yw'n gyflenwr (e.e. cyflogau ac ati.).
- Gwirio dyraniadau gwariant anarferol o uchel neu isel.

2. Rhestru cyflenwyr yn eu trefn yn ôl cyfraniad allyriadau amcangyfrifedig

Trefnu cyflenwyr o'r uchaf i'r isaf yn seiliedig ar allyriadau amcangyfrifedig. Mae'n gyffredin i gyfran gymharol fach o gyflenwyr (yn aml tua 20%) gyfrif am gyfran sylweddol o gyfanswm allyriadau'r gadwyn gyflenwi. Mae'r drefn yma'n darparu man cychwyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer blaenoriaethu.

Isod: allbwn dangosol o safle cyflenwyr



3. Datblygu rhestr fer o gyflenwyr i ymgysylltu â nhw

Gan ddefnyddio'r safle allyriadau, datblygwch restr fer o gyflenwyr ar gyfer allgymorth. Pan fo adnoddau mewnol yn gyfyngedig, gellir llywio blaenoriaethu pellach gan yr ystyriaethau canlynol:

- **Pwysigrwydd strategol a hirhoedledd:** A yw'r cyflenwr yn mynd i barhau i fod yn bartner allweddol neu hirdymor? Mae ymgysylltu â chyflenwyr strategol yn fwy tebygol o ddarparu gwerth parhaus a chydweithrediad cryfach.
- **Gallu i ddylanwadu:** A yw eich sefydliad yn cynrychioli cyfran sylweddol o refferniw'r cyflenwr, neu a oes sefydlogrwydd masnachol neu drosoledd perthynas a allai gefnogi ymgysylltu?
- **Aeddfedrwydd cynaliadwyedd:** Mae cyflenwyr ag arferion cynaliadwyedd mwy datblygedig fel arfer mewn sefyllfa well i ddarparu data allyriadau ac ymgysylltu'n adeiladol. Gall asesiad ansoddol lefel uchel (er enghraifft, adolygu datgeliadau cynaliadwyedd cyhoeddus neu wefannau cyflenwyr) helpu i lywio'r dyfarniad hwn.

4. Cydlynu yn fewnol cyn ymgysylltiad allanol

Dylai'r arweinydd adrodd Sero Net ymgysylltu â thimau mewnol perthnasol i nodi deiliaid perthynas presennol a neilltuo cyfrifoldeb ymgysylltu â chyflenwyr.

Dylai'r unigolion a neilltuwyd nodi cysylltiadau allweddol ar ochr cyflenwyr, a sianeli ymgysylltu o ddewis ar gyfer cyflenwyr ar y rhestr fer. Bydd cydweithredu rhwng cydweithwyr yn sicrhau bod yr ymgysylltiad yn cyd-fynd â rheoli cysylltiadau cyflenwyr ehangach ac yn gwella cyfraddau ymateb.

3. Ymgysylltu â chyflenwyr

Argymhellir bod ymgysylltu â chyflenwyr yn cael ei gynnal ar y cyd, gan gynnwys arweinydd adrodd eich sefydliad ac, lle bo'n berthnasol, y rheolwr contract a/neu reolwr perthynas perthnasol. Dylai amgylchiadau mewnol benderfynu'r dull mwyaf effeithiol; fodd bynnag, y cyfyngu ar drawswladoldeb y rhyngweithio a chanolbwyntio ar adeiladu perthynas yw'r nod. Gall ateb cwestiynau a chymryd adborth helpu i feithrin y berthynas.

Disgwylir i ymgysylltu cychwynnol â chyflenwyr ddigwydd yn bennaf trwy e-bost, gan ganolbwyntio ar gasglu data allyriadau. Dros amser, bwriedir i'r ymgysylltiad hwn esblygu o gais data i ddeialog fwy cydweithredol, sy'n canolbwyntio ar leihau.

3.1. Templed e-bost

Bwriad yr e-bost templed canlynol yw cefnogi allgymorth i'ch sylfaen gyflenwyr. Anogir sefydliadau i bersonoli'r neges (er enghraifft, trwy deilwra'r cyd-destun strategol neu'r dyddiadau cau).

Newidiwch y testun yn y tabl isod i ddiweddarau'r e-bost yn awtomatig.

| Disgrifiad | Testun |
|--------------------------------------|----------------------------|
| Enw'r sefydliad cyflenwr | [Enw sefydliad y cyflenwr] |
| Enw eich sefydliad | [Enw eich sefydliad] |
| % yr allyriadau o'ch cadwyn gyflenwi | [%] |

Pwnc: Cais am wybodaeth am allyriadau (Ebrill 2025 – Mawrth 2026)

Rwy'n ysgrifennu i ofyn am unrhyw wybodaeth am allyriadau sydd ar gael ar gyfer [Enw sefydliad y cyflenwr] yn ymwneud â nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd i [Enw eich sefydliad] yn ystod y cyfnod Ebrill 2025 - Mawrth 2026

Mae allyriadau'r gadwyn gyflenwi yn cyfrif am oddeutu [%] o gyfanswm allyriadau [Enw eich sefydliad] a adroddwyd. Wrth i ni weithio ar y cyd tuag at uchelgais Sero Net 2030 Sector Cyhoeddus Cymru, mae gwella ansawdd a chysondeb data cyflenwyr yn hanfodol. Fel un o'n cyflenwyr strategol, bydd eich mewnbwn yn chwarae rhan bwysig wrth ein helpu i gynyddu cywirdeb a manylder ein hadroddiadau.

I gefnogi hyn, a allwch chi gwblhau a dychwelyd y templed casglu data atodedig erbyn 31 Awst 2026? Rydym yn cydnabod y bydd lefelau argaeledd data yn amrywio. Rhowch unrhyw wybodaeth sydd ar gael i chi ar hyn o bryd, ac rydym yn croesawu cwblhau'n rhannol lle bo hynny'n briodol.

Mae'r templed wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) ac mae'n cynnwys canllawiau drwyddi draw. Yn ogystal a hyn, bydd WGES yn cynnal sesiynau galw heibio cyflenwyr i gynorthwyo â chwblhau'r templed. Cynhelir y rhain am 10:00am ar ddydd Mercher olaf pob mis: 29 Ebrill, 27 Mai, 24 Mehefin, 29 Gorffennaf, 26 Awst. Rhowch wybod i mi os hoffech i mi anfon gwahoddiad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod y cais yn fanylach, mae croeso i chi gysylltu â ni.

4. Defnyddio'r canlyniadau

Canllawiau ychwanegol

Cyflwynwyd sesiwn hyfforddi ar 14 Ebrill 2026, gan gynnwys arddangosiad o'r adnodd casglu data cadwyn gyflenwi a chanllawiau ar sut i integreiddio'r allbynnau i brif ffurflen Sero Net eich sefydliad. Mae'r cofnodi a'r deunyddiau ategol ar gael ar wefan Timau Sero Net ar y cyd yn:

Gwasanaeth Ynni – Adrodd Sero Net > 5. Hyfforddiant > 2026 > WGES_NZR_Training_Supply-chain-data-collection-form(140426)

Ar ôl i'r cyflenwr gwblhau'r ffurflen, bydd crynodeb o'r canlyniadau yn cael ei arddangos yn y tab **'Allforio i Adrodd Sero Net'**.

Mae'r adran 'crynodeb data' o'r daflen hon yn darparu:

- Arwydd o'r gyfran o wariant cyflenwyr a gwmpesir gan ddata allyriadau sy'n benodol i gynnyrch (Haen 3); ac
- Argymhelliad o'r asesiad data ynghylch a yw ffactor allyriadau sy'n benodol i gyflenwr (Haen 2) yn addas.

Mae'r asesiad data yn seiliedig ar ymatebion y cyflenwr ynghylch math ac ansawdd y data allyriadau a ddarperir. Defnyddir y cwestiynau hyn i werthuso a yw'n briodol tarddu o ffactor allyriadau sy'n benodol i gyflenwr. Pan nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn ddigonol, bydd yr adnodd yn ddiodyn yn ystyried methodoleg sy'n seiliedig ar wariant (Haen 1).

Mae opsiwn diystyru ar gael, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr fwrw ymlaen â dull Haen 2 waeth beth fo'r canlyniad asesu. Dylid defnyddio hyn yn ofalus ac os yw'r diystyru yn cael ei ddefnyddio dylid cynnwys sylw i esbonio rheswm dros hyn.

Cyn allforio'r canlyniadau o'r adran 'allforio canlyniadau', rhaid i gyrrff cyhoeddus ddewis y categori SIC perthnasol ar gyfer y cyflenwr. Defnyddir y wybodaeth hon i gyfrifo'r ffigur allyriadau Haen 1, sy'n cael ei gynnwys wedyn o fewn y brif daenlen er mwyn osgoi cyfrif dwbl.

Mae'r holl allbynnau yn y tab hwn yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio cyfrifiadau a gynhwysir yn y tabiau 'Asesu Data' a 'Cyfrifo'. Mae'r tabiau hyn wedi'u diogelu i atal newidiadau damweiniol i fformiwlâu ond gellir eu gweld i ddeall y rhesymeg asesu a'r dull cyfrifo.

4.1. Integreiddio'r canlyniadau i'ch ffurflen sefydliadol

I drosglwyddo'r canlyniadau:

- Copïwch gynnwys y tabl yn 'allforio canlyniadau' ac **eithrio'r penawdau** (celloedd **E29:J32**);
- Gludwch y gwerthoedd i'r tab **'Cadwyn gyflenwi (ffurflenni cyflenwr)'** y brif daenlen casglu data;
- Defnyddiwch **Gludo Gwerthoedd** (nid fformiwlâu); a
- Gludwch i **golofn F**, gan alinio'r gwerthoedd â'r celloedd cyfagos sydd wedi'u rhifo.

Sylwer. Dylech gynnwys cyfanswm y symiau gwariant yn nhabl 'Cadwyn Gyflenwi - Haen 1' y brif daenlen; bydd y daenlen yn gwneud yr addasiad angenrheidiol yn awtomatig.

4.2. Rhannu'r canlyniadau gyda sefydliadau eraill y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Mae traciwr canolog ar gael i gefnogi'r gwaith o rannu ffactorau allyriadau sy'n benodol i gyflenwyr ar draws Sector Cyhoeddus Cymru. Pan fo cyflenwr eisoes wedi'i gyflogi gan sefydliad arall o'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru, gallwch ddewis defnyddio'r ffactor allyriadau sy'n benodol i gyflenwr sy'n deillio o'r ymateb hwnnw, hyd yn oed os nad ydych wedi cysylltu â'r cyflenwr yn uniongyrchol. Gall y dull hwn helpu i leihau ceisiadau data dyblyg a lleihau'r baich adrodd a roddir ar gyflenwyr.

Cydnabyddir, fodd bynnag, y gall nifer o geisiadau i'r un cyflenwr fod yn briodol o hyd. Gall ymgysylltu gan sawl prynwr sector cyhoeddus atgyfnerthu pwysigrwydd data allyriadau a chefnogi gwelliannau mewn gallu adrodd cyflenwyr ac ansawdd data dros amser.

Gofynnir i gyflenwyr gadarnhau a ydynt yn cytuno i rannu eu ffactor allyriadau sy'n benodol i gyflenwr wrth gwblhau'r templed casglu data. Dylid gwneud unrhyw rannu data cyflenwyr yn unol â'r caniatâd a ddarperir, naill ai drwy'r templed neu fel arall.

Pan ddarparwyd caniatâd, gellir trosglwyddo data cyflenwyr i'r traciwr canolog fel a ganlyn:

- Copïwch gynnwys y tabl yn 'allforio data a rennir' ac **eithrio'r penawdau** (celloedd **E55:K55**);
- Gludwch y gwerthoedd i'r tab **traciwr canolog**, wedi'i gadw ar wefan Timau Adrodd Sero Net;
- Defnyddiwch **Gludo Gwerthoedd** (nid fformiwlâu); a
- Gludwch i'r rhes nesaf sydd ar gael yng **ngholofn E**

I gymhwyso ffactor allyriadau sy'n benodol i gyflenwr yn eich ffurflen eich hun:

- Lluoswch ffactor allyriadau sy'n benodol i gyflenwr â gwariant cysylltiedig eich sefydliad gyda'r cyflenwr hwnnw; a
- Cofnodwch y ffigur allyriadau sy'n deillio o'r canlyniad, ynghyd â'r gwariant cysylltiedig a'r cod SIC cyflenwr, yn y tabl **'Cadwyn gyflenwi – haen 2'** o fewn y tab **'Cadwyn Gyflenwi'** y brif daenlen Adrodd Sero Net.
- Peidiwch â gwneud unrhyw addasiad i dabl 'Cadwyn Gyflenwi - Haen 1' y brif daenlen; bydd y daenlen yn gwneud yr addasiad angenrheidiol yn awtomatig.

5. Cwestiynau cyffredin

Bydd y ddogfen Cwestiynau Cyffredin hon yn cael ei diweddarau wrth i gwestiynau ychwanegol gael eu derbyn.

| Cwestiwn | Ymateb |
|---|--|
| Sut mae'r adnodd hwn yn wahanol i gyfrifiannell allyriadau Busnes Cymru? | <p>Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru i gyfrifo eu hól troed carbon sefydliadol a datblygu Cynllun Lleihau Carbon. Bwriad y cymorth hwn yw llywio gweithredu ledled y sefydliad, a gellir defnyddio'r allbynnau i fodloni gofynion caffael penodol (e.e., WPPN 006) hefyd. Gall cyflenwyr gael mynediad i'r cymorth yn ôl yr angen.</p> <p>Mae'r templed Adrodd Sero Net yn safoni casglu a dadansoddi data allyriadau cyflenwyr ar gyfer caffael unigol. Un ffordd y mae'n gwneud hyn yw trwy ddosrannu cyfanswm allyriadau sefydliad gan ddefnyddio gwerth contract a referiw sefydliadol.</p> <p>Mae'r ddau dempled yn cyflawni swyddogaethau gwahanol ac maent yn cyd-fynd: pan fo sefydliad wedi defnyddio cymorth Busnes Cymru, gellir defnyddio'r ôl troed carbon sefydliadol sy'n deillio o hynny fel mewnbwn i'r daenlen Adrodd Sero Net.</p> <p>Nid yw cyfrifiannell Busnes Cymru wedi'i chynllunio i gynhyrchu data allyriadau sy'n benodol i gaffael. Er y gellid ei ddefnyddio yn dechnegol yn y modd hwn, byddai gwneud hynny yn rhoi baich afresymol ar gyflenwyr (h.y., byddai'n rhaid iddynt gwblhau'r gyfrifiannell sawl gwaith ar gyfer pob comisiwn a chasglu data ar lefel contract). Yn ogystal, disgwylir</p> |

| | |
|--|--|
| | <p>i'w bwrpas ar gyfer adrodd ar lefel contract leihau wrth i adrodd allyriadau fudo i ddatrysiad digidol pwrpasol.</p> |
| <p>Ydy'r templed eisoes wedi'i brofi?</p> | <p>Profwyd y templed drwy gyfnod peilot yn 2025, gan gynnwys saith Corff Cyhoeddus yng Nghymru. Fel rhan o'r peilot, cynhaliwyd prawf ymarfer casglu data gyda chyflenwyr ar draws ystod o sectorau a meintiau. Defnyddiwyd adborth gan gyrff cyhoeddus a chyflenwyr sy'n cymryd rhan i fireinio a gwella'r templed.</p> |
| <p>A yw'r templed yn briodol ar gyfer busnesau bach a chanolig?</p> | <p>Ydy. Mae'r templed wedi'i gynllunio i fod yn briodol ar gyfer sefydliadau o bob maint, gan gynnwys busnesau bach a chanolig. Yn bwysig, nid yw aeddfedrwydd adrodd allyriadau o reidrwydd yn cydberthyn â maint y sefydliad; Mewn llawer o achosion, mae sefydliadau llai yn dangos arferion adrodd carbon cadarn, weithiau'n fwy na chyflenwyr llawer mwy.</p> <p>Mae'r templed yn caniatáu cwblhau cymesur a rhannol, gan gydnabod y bydd argaeledd a gallu data yn amrywio. Anogir cyflenwyr i ddarparu'r wybodaeth sydd ar gael ganddynt, heb y disgwyliad bod yn rhaid cwblhau pob adran.</p> <p>Pan fo angen cymorth ychwanegol ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, dylid eu cyfeirio at Busnes Cymru, sy'n cynnig cyngor ac arweiniad wedi'i deilwra ar gynaliadwyedd ac adrodd carbon.</p> |
| <p>A yw'r ffurflen yn mynd i ddod yn orfodol yn y dyfodol?</p> | <p>Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i'r cynllun Adrodd Sero Net, gan gynnwys y templed hwn, ddod yn orfodol. Mae'r cynllun yn parhau i fod yn rhaglen wirfoddol, wedi'i chynllunio i gefnogi a galluogi adrodd allyriadau cyson ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Ei brif</p> |

| | |
|---|--|
| | <p>bwrpas yw darparu adnodd ac arweiniad ymarferol i wella ansawdd data dros amser, yn hytrach na chyflwyno gofynion cydymffurfio newydd.</p> |
| <p>A allwn ni gyfeirio cyflenwyr tuag at netzeroreporting@energyservice.wales?</p> | <p>Na. Oherwydd gofyniad posibl yr adnodd, nid yw mewnflwch netzeroreporting@energyservice.wales yn gallu ymateb i ymholiadau cyflenwr unigol ac ni ddylid ei rannu â chyflenwyr. Yn lle hynny, dylid cyfeirio cyflenwyr at sesiynau galw heibio cyflenwyr WGES, sydd wedi'u cynllunio'n benodol i ddarparu cymorth i gwblhau'r templed ac ymateb i gwestiynau cyffredin.</p> |
| <p>Beth os ydym am barhau i ddefnyddio ein hoffer ein hunain?</p> | <p>Mae'r templed wedi'i gynllunio i gefnogi dull cyson a chymharol o gasglu data allyriadau cyflenwyr ar draws Sector Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i sefydliadau ddisodli prosesau presennol lle mae'r rhain eisoes wedi'u sefydlu.</p> <p>Os ydych wedi datblygu adnoddau neu brosesau mewnol sy'n cyflawni'r un canlyniadau neu ganlyniadau tebyg, gellir parhau i ddefnyddio'r rhain. Y prif amcan yw gwella ansawdd a defnyddioldeb data allyriadau'r gadwyn gyflenwi, yn hytrach na rhagnodi un adnodd gorfodol.</p> |
| <p>Pam nad yw trothwy wedi'i osod, er enghraifft wedi'i alinio â WPPN 006?</p> | <p>Yn ystod y peilot, codwyd pryderon bod trothwyon yn peri risg o eithrio sefydliadau llai sector cyhoeddus Cymru rhag gofynion adrodd, wrth osod gofynion uwch ar adnoddau sefydliadau gwariant uwch, llawer ohonynt hefyd yn mynegi amheuan am eu gallu a'u hyder wrth ddefnyddio'r templed adrodd.</p> <p>Gallai gosod trothwy cyffredinol yn seiliedig ar niferoedd cyflenwyr (megis adrodd allyriadau ar gyfer yr 20 cyflenwr gorau fesul sefydliad) hefyd greu anghydwysedd; gallai'r hyn a allai fod yn syml i sefydliad mwy beri heriau sylweddol i rai llai. Mae hefyd yn peri risg diystyru cyflenwyr sylweddol i'r</p> |

sector yn ei gyfanrwydd – er enghraifft, gall y cyflenwr sy'n isel i lawr ar restr sefydliad mawr fod yn fwy na'r cyflenwr gorau i sefydliad adrodd llai.

Am y tro, y dull yw caniatáu i sefydliadau benderfynu drostynt eu hunain, yn seiliedig ar eu dealltwriaeth eu hunain o'u capasiti a'u gallu, faint o gyflenwyr y maent yn ymgysylltu â nhw i gwblhau'r templed casglu data.

A ellir datblygu templedi sy'n benodol i'r sector?

Mae hyn wedi'i nodi ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

Sut allwn ni atal ceisiadau data dyblyg i gyflenwyr?

O ystyried natur y broses bresennol sy'n seiliedig ar daenlenni, mae mecanweithiau cyfyngedig sy'n atal cyflenwyr rhag derbyn y templed yn llawn gan sawl Corff Cyhoeddus yng Nghymru. Lle mae hyn yn digwydd, fel arfer, mae oherwydd bod y cyflenwr yn fawr neu'n strategol arwyddocaol ac yn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i sawl sefydliad.

Er y gall rhywfaint o wybodaeth a gyflwynir fod yn gyson ar draws ceisiadau (er enghraifft, data allyriadau ar draws y sefydliad), bydd gwybodaeth sy'n benodol i gynnyrch neu wasanaeth yn amrywio yn ôl contract ac felly yn parhau i fod yn berthnasol i bob sefydliad unigol sy'n adrodd. Yn ogystal, gall sawl cais atgyfnerthu'r neges bod data allyriadau yn bwysig i nifer o brynwyr, gan helpu i nodi'r galw a chefnogi ymdrechion adrodd / lleihau allyriadau yn y dyfodol.

Anogir sefydliadau i fod yn ymwybodol o faich cyflenwyr, ond mae rhywfaint o orgyffwrdd mewn ceisiadau yn nodwedd ddisgwylidig ac, mewn rhai achosion yn nodwedd adeiladol o'r dull presennol.

A allwch chi greu cronfa ddata ganolog o ddata allyriadau cyflenwyr i ni gael mynediad iddynt?

Ar hyn o bryd rydym yn archwilio addasrwydd digideiddio elfennau o'r rhaglen, gan gynnwys casglu a rheoli data cyflenwyr. Fodd bynnag, mae datblygu neu gaffael platfform meddalwedd ganolog yn ymgymeriad cymhleth ac ni ddisgwylir i hyn fod yn ateb cyflym.


Yn y cyfamser, mae datrysiad gweithio o'i gwmpas yn cael ei weithredu tra bod opsiynau tymor hwy yn cael eu hasesu, gan gynnwys traciwr canolog a gynhelir o fewn sianel Teams y rhaglen.

Bydd diweddariadau pellach yn cael eu rhannu wrth i'r gwaith hwn ddatblygu.

Os ydym yn prynu gan gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, a ddylem anfon y ffurflen atynt?

Mewn egwyddor, nid oes unrhyw beth sy'n atal un sefydliad o'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru rhag anfon y ffurflen casglu data cyflenwyr at gorff cyhoeddus arall lle mae nwyddau a/neu wasanaethau yn cael eu caffael rhwng y ddau. Fodd bynnag, dylid ystyried y dull hwn yn ofalus, am y rhesymau canlynol:

- Mae cyrff cyhoeddus yn sefydliadau amrywiol, sy'n aml yn darparu ystod eang o wasanaethau. O ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd ffactor allyriadau penodol i gyflenwr unigol yn gynrychioliadol o'r nwyddau neu wasanaethau penodol sy'n cael eu prynu. Mewn llawer o achosion, ni ddisgwylir i ansawdd y data sy'n deillio o hynny fod yn sylweddol well na dull Haen 1 sy'n seiliedig ar wariant.
- Mae cyfyngiadau capasiti ac adnoddau yn her gyffredin ar draws Sector Cyhoeddus Cymru. Gall cyhoeddi ffurflenni cyflenwyr rhwng cyrff cyhoeddus greu baich gweinyddol ychwanegol y mae'r rhaglen yn ceisio ei osgoi ar gyfer budd dadansoddol cyfyngedig.

- 
- Pan fo'r gwariant yn ymwneud â gwasanaethau sy'n cael eu his-gontractio neu eu hallanoli ymhellach, mae'n gyffredinol yn fwy priodol i'r cyrff prynu cyhoeddus gymryd dull cydweithredol o ymgysylltu â'r cyflenwr trydydd parti yn uniongyrchol. Mae hyn yn debygol o arwain at ddata allyriadau mwy cywir a chefnogi cysondeb adrodd ar gyfer yr holl bartion dan sylw.

O ganlyniad, er nad yw anfon y ffurflen at Gorff Cyhoeddus arall yng Nghymru wedi'i wahardd, nid yw'n cael ei hargymell yn gyffredinol fel arfer safonol a dylid ei hystyried dim ond pan fo'n gymesur ac yn amlwg yn ychwanegu gwerth at ganlyniadau adrodd.



Gwasanaeth Ynni Energy Service

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ("**WGES**") yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus a thargedau ynni cenedlaethol. Mae WGES yn cael ei ddarparu gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Phartneriaethau Lleol (y "**Partneriaid Cyflenwi**"). Mae'r Adroddiad hwn (yr "**Adroddiad**") wedi'i gynhyrchu gan y Partneriaid Cyflenwi ac, er bod y safbwyntiau a fynegir ynddo yn cael eu rhoi mewn ewyllys da yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar ddyddiad yr Adroddiad hwn:- (i) nid yw'r safbwyntiau hyn o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru, nad yw'n derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw ddatganiad neu farn a fynegir yn yr Adroddiad; (ii) bwriedir i'r Adroddiad ddarparu canllawiau cyffredinol yn unig, yn hytrach na chyngor ariannol, cyfreithiol neu dechnegol at ddibenion unrhyw brosiect penodol neu fater arall, ac ni ddylai unrhyw un sy'n derbyn yr Adroddiad ddibynnu arno yn lle cael eu cyngor eu hunain gan gynghorydd trydydd parti priodol; a (iii) dylai unrhyw berson sy'n derbyn yr Adroddiad hwn felly gael ei gyngor ariannol, cyfreithiol, technegol a/neu broffesiynol perthnasol arall ei hun i'r graddau y mae angen canllawiau penodol arnynt ar ba gamau (os o gwbl) i'w cymryd, neu ymatal rhag eu cymryd, mewn perthynas ag unrhyw brosiect, menter, cynnig, ymwneud ag unrhyw bartneriaeth neu fater arall y gall gwybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad fod yn berthnasol iddo; a (iv) nid yw'r Partneriaid Cyflenwi yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â'r Adroddiad, nac am unrhyw ddatganiad yn yr Adroddiad a/neu unrhyw gamgymeriad neu hepgoriad sy'n ymwneud â'r Adroddiad.